# Ymateb i ymgynghoriad

**Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau**

**Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach**

**Enw Sefydliad: Llywodraeth Cymru - Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth**

Cyflwynwyd: 30 Ebrill 2024

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy’n torri’r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

## Sylwadau cyffredinol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Cydnabyddaf yr angen am ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd yn dilyn ymadawiad y DU o'r undeb Ewropeaidd a nodaf fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith targed statudol ar gyfer bioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd fy ymateb yn canolbwyntio ar y cynnig i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru (CLlA) a'r pwerau a fydd ganddo i dderbyn ac ymchwilio i gwynion.

Croesewir y gofyniad penodol i'r CLlA weithio mewn modd cyflenwol a chydweithrediadol. Mae fy nhîm wedi gwerthfawrogi'r ymgysylltiad y maent wedi'i gael gyda swyddogion o'r Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth wrth i'r cynigion ar gyfer y CLlA ddatblygu. Felly rwy'n falch bod y dull cydweithrediadol hwn wedi derbyn sylw yn y strategaeth a'r gofynion adrodd a gynigir, a bydd yn parhau unwaith y bydd y CLlA wedi'i sefydlu.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae gennyf y ddyletswydd a'r fraint o gyflawni cyfiawnder i unigolion sydd wedi'u trin yn annheg gan wasanaethau cyhoeddus. Derbyniaf nifer gymharol lai o gwynion am faterion amgylcheddol. Fel arfer, maent yn ymwneud â materion na allaf ymchwilio iddynt am eu bod y tu hwnt i'm hawdurdodaeth a'm pwerau, ond mae'n bosibl y dôn o fewn cylch gwaith y CLlA newydd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod gwahaniaeth clir rhwng cwynion a ddaw o fewn fy awdurdodaeth ac awdurdodaeth y CLlA.

Gan mwyaf, credaf y bydd y gwahaniaeth hwn yn glir gan mai rôl y CLlA yw ystyried achosion o dorri cyfraith amgylcheddol, tra fy rôl i yw ymchwilio i achosion o gamweinyddu a methiant gwasanaeth lle mae hyn wedi arwain at anghyfiawnder. Fodd bynnag, gall fod achosion prin pan fo awdurdod cyhoeddus sy'n eistedd o fewn ein dwy awdurdodaeth wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol sydd wedi arwain at niwed i unigolyn neu grŵp o unigolion.

Credaf ei bod yn hollbwysig ystyried y dull y dylai'r ddau sefydliad ei fabwysiadu mewn achosion o'r fath. Gall hefyd fod achosion pan fyddai'n fuddiol rhannu gwybodaeth, er enghraifft, lle gallai hyn gefnogi ymchwiliad. Yng ngoleuni hyn, ystyriwn ei bod yn hanfodol bod y CLlA yn nodi sut y mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth â ni, ac y dylid datblygu trefniadau o'r fath ar y cyd, wedi'i osod o fewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

Yng Nghymru mae nifer o systemau a gweithdrefnau cwynion, ac fel yr amlygodd fy rhagflaenydd yn ein hadroddiad thematig 'Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol: Dysgu

Gwersi o Ddelio’n Wael â Chwynion’, mae angen i ni sicrhau proses clir a chyson o gasglu data o'r systemau hyn, a sbarduno symudiad diwylliannol oddi wrth y feio, ac yn hytrach, tuag at welliant. Sefydlodd Awdurdod Safonau Cwynion, a grëwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau cyhoeddus (Cymru) 2019, gyfres o egwyddorion a chanllawiau ar gyfer trefniadau y n ymwneud ag ymdrin â phryderon a chwynion mewn cyrff cyhoeddus sydd o fewn fy awdurdodaeth. Dylai unrhyw ganllawiau ar ymdrin â chwynion a ddarperir gan yr CLlA i gyrff cyhoeddus o dan eu hawdurdodaeth eu hunain, fod yn gydnaws â’r canllawiau hyn a chynlluniau eraill yng Nghymru. Bydd hyn yn osgoi gorlwytho'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodiad 2 o'r Papur Gwyn â rheolau a safonau gwahanol, lle maent yn ddarostyngedig i wahanol gynlluniau ymdrin â chwynion.

Gallai'r CLlA hefyd fabwysiadu ei safonau gwasanaeth ei hun i egluro pa lefel o wasanaeth y gall pobl ei ddisgwyl.

Mae cynigion i’r CLlA gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn adleisio dulliau tebyg y mae fy Swyddfa yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth effeithiol. Mae ein hymchwiliadau ar ein liwt ein hunain estynedig ac ehangach yn ein galluogi i ymestyn ymchwiliadau i faterion neu gwynion eraill, neu i gynnal ymchwiliad annibynnol lle rydym yn amau camweinyddu systemig heb fod wedi derbyn cwyn.

Cefnogaf hefyd y defnydd o dull uwchgyfeirio a fyddai’n caniatáu i’r CLlA ddatrys materion yn gynnar. Gan ddefnyddio ein dull datrys yn gynnar, gallwn ymyrryd heb fod angen ymchwiliad llawn, gan ddatrys cwynion yn gyflym a dysgu gwersi er mwyn gwella gwasanaethau i bawb.

## Sylwadau cloi

Rydym yn hyderu y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi.  Os hoffech drafod unrhyw rai o’m pwyntiau ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, ein Pennaeth Polisi Dros Dro (tanya.nash@ombwdsmon.cymru).



**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Ebrill 2024